

# Tyfu Canolbarth Cymru Cylchlythyr mis Hydref

**Diweddariad mis Hydref 2022**

Mae'r hydref wedi hen ddechrau, ac rydym am rannu'r diweddaraf â chi am Fargen Twf Canolbarth Cymru.

Byddwn yn cymryd golwg fanylach ar gynigion y prosiect sy'n cael eu datblygu yn rhan o Bortffolio Bargen Twf Canolbarth Cymru.

Hefyd, yn ddiweddar, siaradodd cyd-Gadeiryddion Tyfu Canolbarth Cymru ac Arweinwyr Cynghorau Sir Ceredigion a Phowys, y Cynghorydd Bryan Davies a'r Cynghorydd James Gibson-Watt gyda

golygydd Business News Wales, Mark Powney, am bwysigrwydd y bartneriaeth rhwng y ddwy ranbarth a'r angen i gydweithio i feithrin yr economi yng Nghanolbarth Cymru.

Gwrandewch ar y clip sain yma (Clip Saesneg yn unig)

Mae'r cylchlythyr hwn yn ffordd reolaidd o gyfathrebu â'n rhanddeiliaid/aelodau, a byddwn bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella'r modd yr ydym yn cyfleu ein newyddion. Felly, os oes gennych chi unrhyw adborth, sylwadau neu newyddion perthnasol i'w gynnwys yma, hoffem glywed gennych.

**Helpu i dyfu cyfle yng Nghanolbarth Cymru,**

*Tîm Tyfu Canolbarth Cymru*




## Ffaith y mis



Yn y 18fed a dechrau'r 19eg ganrif, roedd gan Sir Aberteifi (Ceredigion erbyn hyn) lawer o wahanol ddiwydiannau llewyrchus; Aberteifi oedd canolfan fasnachol y sir; roedd plwm, arian a sinc yn cael eu cloddio a dyma brif borthladd De Cymru cyn i'r harbwr gael ei siltio.

Ffynhonnell: https://en.wikipedia.org/wiki/Ceredigion

**Parhewch i ddarllen i wybod rhagor am y canlynol:**

- **Portffolio Bargen Twf Canolbarth Cymru**
- **Cynigion Prosiect Bargen Twf Canolbarth Cymru**
- **Newyddion arall TCC**

## Portffolio Bargen Twf Canolbarth Cymru



Yn ein rhifyn mis Gorffennaf, fe wnaethon ni esbonio'r broses ar gyfer datblygu a chyflwyno Achosion Busnes ar gyfer Portffolio'r Fargen Dwf, yn unol â gofynion y Llywodraeth. Mae noddwyr y prosiect sy'n gyfrifol am ddatblygu'r prosiectau hynny ar y rhestr fer wedi bod yn brysur yn symud drwy gam cyntaf y broses: sef cyflwyno'r Achos Amlinellol Strategol.

Fel nodyn i'ch atgoffa, datblygir yr Achos Busnes ar gyfer cynigion gwariant sylweddol mewn tri cham allweddol:

**Cam 1:** Cwmpasu'r cynllun a pharatoi'r Achos Amlinellol Strategol (SOC)

**Cam 2:** Cynllunio'r cynllun a pharatoi'r Achos Busnes Amlinellol (OBC)

**Cam 3:** Casglu'r ateb a pharatoi'r Achos Busnes Llawn (FBC)

Pwrpas y broses tri cham yw sicrhau bod pwyntiau adolygu yn cael eu datblygu wrth i brosiect fynd yn ei flaen, gan alluogi ehangu manylion dros amser gyda sicrwydd bod meini prawf allweddol wedi'u bodloni.

Yng nghyfarfod Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ar 26 Medi, bu'r aelodau'n trafod y set gychwynnol o gyflwyniadau ac asesiadau Achos Amlinellol Strategol a chymeradwywyd yr argymhellion a gyflwynwyd. O ganlyniad, mae nifer o brosiectau bellach wedi cael cymeradwyaeth i fynd ymlaen i gam nesaf eu datblygiad achos busnes, sef Achos Busnes Amlinellol.


Nodwch nad yw unrhyw benderfyniad i fwrw ymlaen ar y cam hwn yn gwarantu y bydd arian y Fargen Dwf yn cael ei ddyfarnu.

Rhagwelir y bydd yr Achosion Busnes Amlinellol yn cael eu cyflwyno yn y flwyddyn newydd. Yn y cyfamser, rydym hefyd yn disgwyl rhai Achosion Amlinellol Strategol eraill nad oeddent yn barod i'w cyflwyno yn flaenorol.

Yn ogystal â'r Achosion Amlinellol Strategol (SOCs), rhoddodd noddwyr y prosiect hefyd ffurflen asesu carbon a oedd yn cyflwyno syniadau cychwynnol ar sut i ymgorffori mesurau lleihau carbon yn rhan o ddatblygiad prosiectau. Mae hyn yn rhywbeth a fydd yn ystyriaeth bwysig i bob cynnig o fewn Portffolio'r Fargen Dwf i sicrhau ein bod yn cyfrannu at ddyheadau Net Sero Cymru.

Gan fod y cynigion yng nghamau cynnar eu datblygiad, bydd dadansoddiad o bob prosiect yn cael ei rannu pan fydd yr amser yn iawn i'r noddwyr unigol. Cadwch olwg amdanynt!

## Cynigion Prosiect Bargen Twf Canolbarth Cymru




Yma rydym yn bwrw golwg sydyn ar gynigion y prosiect sy'n cael eu datblygu i'w hystyried ar gyfer cyllid y Fargen Dwf.




*1 - **Blaenoriaethau Twf Strategol***

Mae'r cynigion yn cwmpasu nifer o themâu sydd wedi eu nodi o dan y meysydd blaenoriaeth i dwf strategol a gafodd eu hamlinellu yn y Weledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru.

## Harbwr Aberaeron

### Noddwr y Prosiect: Cyngor Sir Ceredigion




**Crynodeb:**

Mae tref Aberaeron yn gyrchfan dwristiaeth adnabyddus, gyda'i harbwr pictiwrésg a'r bensaernïaeth o'i amgylch.

Nod y prosiect hwn yw adeiladu ar waith arfaethedig o atal llifogydd er mwyn gwireddu potensial economaidd ardal yr harbwr a denu buddsoddiad o'r sector preifat. Mae hyn yn cynnwys asesu

opsiynau ar sut y gall uwchraddio seilwaith yr harbwr (cronni posibl, datblygu asedau harbwr a chysylltedd tref) ddiwallu anghenion economi twristiaeth ac ymwelwyr modern.

## Cwm Elan

### Noddwr y Prosiect: Dŵr Cymru




**Crynodeb:**

Gwella ansawdd y profiad i ymwelwyr yng Nghwm Elan drwy fuddsoddi yn y ganolfan ymwelwyr, yr amwynderau a'r seilwaith; cyfyngu ar yr effaith ar yr amgylchedd drwy ddatblygiadau carbon isel a defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy.

Bydd hyn yn cynnwys gwaith sefydlogi i Geunant y Diafol, chwaraeon dŵr nad ydynt yn cael eu pweru, llety gwell i ymwelwyr, pwyntiau gwefru EV, a chysylltiadau ar gyfer cyflenwi pŵer hydro.

## Canolfan Arloesi Gweithgynhyrchu Bwyd

### Noddwr y Prosiect: Cyngor Sir Ceredigion

**Crynodeb:**

Adeiladu canolfan newydd sy'n darparu cyfleusterau ar gyfer gweithgynhyrchu a datblygu cynnyrch arloesol trwy gyfrwng ffatri beilot ddiwydiannol ar gyfer cynnyrch bwyd a diod.

Bydd y dulliau arloesol hyn o weithgynhyrchu bwyd a diod yn galluogi'r sector i adeiladu ar gryfderau'r sectorau amaethyddol a bwyd sydd eisoes wedi hen ennill eu plwyf yn rhanbarth Canolbarth Cymru.

Bydd y cyfleuster newydd yn mynd i'r afael â'r angen am fynediad at offer arbenigol o'r radd flaenaf i alluogi profi prosesau a chynhyrchion newydd sy'n berthnasol yn fasnachol, gan ddarparu data a dadansoddeg ar raddfa fasnachol a darparu cynhyrchion diogel o ansawdd ar gyfer profi'r farchnad.

Yn ei hanfod, bydd y cyfleuster yn cefnogi twf busnesau bwyd o faint canolig yn y rhanbarth a fydd yn arwain at fwy o gynhyrchiant drwy gymhwyso prosesau arloesol ar raddfa fwy.




## Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd

### Noddwr y Prosiect: Prifysgol Aberystwyth




**Crynodeb:**

Bydd y Parc Arloesi arfaethedig yn gweithredu fel catalydd ar gyfer gwaith ymchwil gydweithredol a masnacheiddio ymchwil trwy ddarparu cefnogaeth, cyfleusterau a chynnig cyfleoedd ar gyfer cydweithio academaidd i hyrwyddo twf gwyrdd busnesau a datblygiad economaidd sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd.

Dyma fydd y cam nesaf wrth sefydlu ecosystem arloesi sydd wedi'i ddatblygu'n llawn, gan alluogi busnesau technoleg -uchel, carbon-isel i dyfu a denu busnes newydd i'r rhanbarth.

## Cynefin: Calon Werdd Cymru

### Noddwr y Prosiect: Canolfan y Dechnoleg Amgen




**Crynodeb:**

Ailddatblygiad trawsnewidiol i greu profiad dysgu newydd pwerus y gellir ymgolli ynddo a chyrchfan gynaliadwy blaenllaw i ymwelwyr yn y Ganolfan Dechnoleg Amgen, a hynny yng nghanol Canolbarth Cymru.

Yn ystod y prosiect bydd cyfleusterau o'r radd flaenaf yn cael eu creu i gefnogi'r gwaith o ddarparu arloesedd, gwybodaeth a sgiliau ar gyfer y dyfodol, gyda'r meysydd allweddol yn cynnwys ynni adnewyddadwy, adeiladu cynaliadwy ac ôl-osod, rheoli adnoddau naturiol, a'r defnydd o fwyd a thir.

Bydd buddsoddi mewn addysgu, gofodau cynadledda a digwyddiadau, llety, a phrofiad ymwelwyr newydd ac ysbrydoledig yn ehangu capasiti, tyfu cynulleidfaoedd, creu swyddi newydd, a thrawsnewid y profiad dysgu.

Mae hyn yn rhoi cyfle i ddarparu hyfforddiant a sgiliau ar gyfer y dyfodol, gan ysbrydoli ymwelwyr o bob oed ar yr un pryd i ddysgu mwy am y rhan y gallant ei chwarae wrth greu dyfodol iachach a mwy diogel i'n planed.

## Canolfan Sbectrwm Genedlaethol

### Noddwr y Prosiect: Prifysgol Aberystwyth




**Crynodeb:**

Sefydlu Canolfan Sbectrwm Radio gyda model prif ganolfan a lloerennau a fydd yn elwa o amgylcheddau amrywiol y rhanbarth (arfordirol, ucheldir, gwledig, ac ati) ac yn gyfle unigryw i fynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â darpariaeth sbectrwm radio ar adeg pan fo galw sy'n tyfu'n gyflym am gymwysiadau newydd, er enghraifft ffermio deallus; y Rhyngrwyd Pethau; cerbydau tir, môr ac awyr ymreolaethol; 5G a thu hwnt; monitro iechyd o bell, ac ati.

Mae Prifysgol Aberystwyth a Llywodraeth Cymru eisoes wedi buddsoddi yng Ngham 1 y prosiect. Mae'r cynnig hwn ar gyfer buddsoddi yng Ngham 2 datblygiad y Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol, a fydd yn darparu ystod o seilwaith wedi'i nodi gan randdeiliaid y diwydiant, ynghyd ag adeiladu a phrynu'r seilwaith angenrheidiol i alluogi'r Ganolfan i ddenu defnyddwyr a datblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd, cymhwysol a gwyddonol.

## Adfer i lywio Camlas Trefaldwyn Cymru

### Noddwr y Prosiect: Glandŵr Cymru

Cynnig Twristiaeth Cryfach

**Crynodeb:**

Mae'r cynnig yn canolbwyntio ar adfer Camlas Trefaldwyn i hwyluso cyswllt i rwydwaith ehangach Camlas 2,000 milltir o hyd yng Nghymru a Lloegr, ac yn arbennig mynediad i gychod trwy Bowys i du hwnt i'r Trallwng. Ei nod yw galluogi cyfleoedd gwell ar gyfer ystod ehangach o weithgareddau i ymwelwyr gan gynnwys aros dros nos, gyda gwariant cysylltiedig a chyflwyno cyfleoedd i fusnesau hamdden, yn cynnwys llogi cychod a gweithgareddau anturus.

Mae'r prosiect yn cynnwys gwaith clirio a darparu seilwaith, gan gynnwys carthu, atgyweirio rhannau o'r ochrau sydd wedi dymchwel, atgyweirio traphont ddŵr Rhestredig Gradd II* Efyrnwy, ailadeiladu dwy bont ffordd ac adeiladu gwarchodfa natur newydd.

# Canolfan Tir Glas

## Noddwr y Prosiect: Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant




**Crynodeb:**

Bydd Canolfan Tir Glas yn cynnig cyfle unigryw a dylanwadol yn y canolbarth i sicrhau dyfodol menter wledig yn y rhanbarth drwy ganolbwyntio a gwella'n ddramatig gweithgareddau busnes presennol cwmnïau gwledig, yn ogystal â chreu amgylchedd delfrydol ar gyfer cefnogi a meithrin mentrau newydd mewn sectorau gwledig.


Yn allweddol i hyn fydd datblygu Canolfan Tir Glas, sef cyfleuster carbon sero-net c1,530m2 ar gampws presennol Llanbedr Pont Steffan, a fydd yn gyrchfan lle gall y gymuned fusnes wledig weithio gyda'i gilydd i gynyddu arloesedd a datblygiad yn yr ardal.

## Beth nesaf?

Rydym dal i aros am rai achosion Amlinellol Strategol ar gyfer prosiectau. Pan fyddant yn cyrraedd, byddant yn cael eu hasesu. Yn y cyfamser, byddwn yn gweithio gyda noddwyr y prosiect i ddarparu rhagor o wybodaeth am y broses a'r gofynion, a hefyd yn rhoi arweiniad ar ystyriaethau caffael, sgiliau a lleihau carbon wrth iddynt ddatblygu eu Hachosion Busnes ymhellach.

Y garreg filltir allweddol nesaf i'r Fargen Dwf yw datgloi'r arian cyfalaf i ddechrau cyflwyno cynigion y prosiect o fewn y portffolio. Er bod ymrwymiad gan Lywodraethau'r DU a Chymru i fuddsoddi cyllid y Fargen Dwf yn y rhanbarth, mae angen i ni roi sicrwydd bod popeth mewn trefn gennym i gyd, a'n bod yn barod i'w gyflawni o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.

Yn rhan o'r broses hon, rydym yn adnewyddu Achos Busnes y Portffolio, gan ddiweddaru'r wybodaeth ddiweddaraf o gynigion y prosiect a nodi unrhyw fylchau posibl.



## Edrych ymlaen

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

https://twitter.com/growingmidwales

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

Rydym yn awyddus i estyn allan at gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru. Gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e-bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at growingmidwales@ceredigion.gov.uk.

Tyfu Canolbarth Cymru
Growing Mid Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds